


*Naaws am Le
Sense of Place*

CIL-MAEN



Lleolir **Cil-maen** tua'r gorllewin o Benfro ar lan ddeheuol Afon Penfro. Yn un o blwyfi Penfro, eto'n hollol ar wahân, roedd Cil-maen yn gymuned glos iawn a oedd yn ymfalchïo'n fawr yn ei hannibyniaeth. Roedd y pentref yn hunangynhaliol ac arferai ymffrostio yn y nifer o siopau a fodlonai anghenion o bob math, o werthwyr hetiau i bobyddion; ond rhwygwyd ei galon yn y 1960au pan aethpwyd ati i gynnal rhaglen foderneiddio frwdfrydig. Dymchwelwyd rhan helaeth o'r hen bentref a oedd yn gyfoeth o gartrefi a bythynnod traddodiadol, nodweddiadol o Sir Benfro, er mwyn gwneud lle i stad gyngor fawr, modern. Heb os, mae i Gil-maen hanes cudd.



Ogof Fferm y Priordy

Mae hanes Cil-maen yn cychwyn ryw 10,000 o flynyddoedd yn ôl mewn ogof yn yr esgair galchfaen sy'n ffinio Afon Penfro. Mae'r ogof hon sy'n cael ei galw'n 'Catshole' neu ogof Fferm y Priordy yn ymestyn dros 120 o droedfeddi i mewn i'r graig galchfaen a chafodd ei chloddio ym 1908 gan Dr A Hurrell Style a Mr E Dixon. Ymhlith yr hyn y cafwyd hyd iddynt oedd gweddillion dynol ac anifeiliaid, fflintiau a chelc prin o'r Oes Efydd yn cynnwys enghraifft gynnar iawn o lif, cŷn a phalstaf (math o fwyell) sydd bellach i'w gweld yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd.

Goresgyniad y Normaniaid

Sefydlu Priordy Cil-maen


Pan feddiannwyd yr ardal gan Arnulf de Montgomery ym 1093, fe adeiladodd gaer yn y man lle saif Castell Penfro bellach. Fe wnaeth hefyd feddiannu'r gwrthglawdd lle saif Cil-maen heddiw, ar draws cilfach ddeheuol Afon Penfro. Yma sefydlwyd eglwys ac adeiladau mynachaid yn dyddio'n ôl i ganrifoedd cynnar y cyfnod Cristnogol. Ymddengys hefyd mai'r gilfach oedd porthladd yr ardal ar y pryd, felly'n hanfodol i feddiannaeth y Normaniaid.

Yn 1098 sefydlwyd y Priordy presennol gan Arnulf a gyflwynodd Eglwys San Niclas 'o fewn ei gastell' yn rhodd i Abaty Benedictaidd Seez yn Normandi. Daeth y Priordy yn ganolbwynt i anheddiad Cil-maen fel eglwys blwyf gan roi iddi'r enw 'tun' y mynachod neu 'Monkton' yn Saesneg, gyda 'tun', medden nhw yn golygu anheddiad fferm.

Ochr ogleddol corff yr eglwys bresennol yw wal wreiddiol yr eglwys hynafol. Mae gweddillion adeiladau'r Priordy, heblaw am yr hyn a ymgorfforwyd i Eglwys y Priordy, wedi eu cyfyngu i fwâu unigol a wal dalcen. Ni chwblhawyd unrhyw waith archeolegol yn yr ardal, er i

awyrluniau a ffurfiau sydd ar lawr ddangos bod yna sylfeini helaeth yn bodoli.

Safai i'r Priordy mewn safle pwysig yn agos i gastell mawr ac ar lwybr y pererinion i Dyddewi. Yn fachgen ifanc, anfonwyd Harri Tudur, a ddaeth yn Harri'r VII ac yn ddiweddarach, sylfaenydd Frenhinlin y Tuduriaid, i'r Priordy i dderbyn ei addysg gan y mynachod Benedictaidd. Serch hynny, ei fab Harri'r VIII oedd yn gyfrifol am ei ddiddymu ym 1535. Parhawyd i ddefnyddio'r Priordy fel eglwys blwyf er i'w chyflwr ddirywio'n raddol, tan yr unig beth oedd yn weddill ohoni oedd ei chorff cul a hir. Daeth y gangell a'r cysegr yn adfeilion heb do uwch eu pennau ac felly y buont tan iddynt gael eu hadfer ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Yr Hen Briordy

Cil-maen Canoloesol

Yn ffodus iawn mae yna glwstwr o adeiladau canoloesol a oedd yn amgylchynu'r Priordy dal i fodoli, sy'n sicrhau bod yr 'hen' Gil-maen yn le o ddiddordeb hanesyddol sylweddol.

Hen Neuadd Cil-maen

Mae'r neuadd yn cael ei hadnabod fel yr annedd domestig hynaf yn Sir Benfro, ac o bosib yng Nghymru. Cafodd ei hadeiladu yn y 14eg a'r 15fed ganrif ac mae ynddi gladdgell gromennog neu is-grofft, sy'n hŷn o lawer, gwnaed hefyd nifer o newidiadau diweddarach yno.



*Hen
Gwndid*



Y Bryn Lletchwith a'r Hen Neuadd

Yng nghefn yr adeilad mae yna hen Simnai 'Ffleminaid' crwn. Nid oedd y Neuadd yn un o brif adeiladau'r Priordy, a dywedir mai tŷ ydoedd i westai a arferai ymweld â'r Priordy: roedd lletygarwch yn rheol Fenedictaidd. Mynachlogydd oedd yr unig leoedd bron lle allai teithwyr sicrhau llety am y noson, ac yn briodol efallai, y mae'n westy unwaith eto sydd yn eiddo i'r Landmark Trust - a'r si yw, bod yna ysbryd yno!

Fferm y Priordy



Ffermdy'r Priordy


a oedd, yn ôl yr hynafiaethydd Richard Fenton o Sir Benfro, yn blasty'r Priordy ar un adeg. Cafodd ei adfer yn sylweddol, ond dengys y corbelau sydd yn uchel i fyny ar flaen yr adeilad, bod rhannau ohono yn dyddio'n ôl i'r canol oesoedd, sef y 14eg neu'r 15fed ganrif.

Tyrdy neu faenor ag amddiffynfeydd ydoedd yn wreiddiol. Adeiladwyd y prif ystafelloedd uwchben ei gilydd, gydag ysgol a fyddai'n cael ei thynnu i fyny'r gyda'r nos, yn arwain atynt.

Wrth gychwyn ar gyfnodau mwy sefydlog fe wnaeth rhes o risiau gymryd lle'r ysgol.


Yn y caeau nid nepell i ffwrdd tua'r gorllewin o'r ffermdy mae yna golomendy o'r canol oesoedd. Byddai hwn wedi bod yn bwysig iawn o ran darparu cig ffres i'r Priordy yn ystod misoedd oer y gaeaf. Noder bod yr adeiladau hyn yn eiddo preifat ac nad oes unrhyw hawl mynediad iddynt.

Y Colomendy



Yr 17eg Ganrif a'r Rhyfel Cartref

Dengys map John Speed o 1611 gyfodeiladau'r fferm yng Nghil-maen. Roedd Cil-maen yn anheddiad yn ei hawl ei hun. Cynhaliwyd marchnad yno o ddiwedd y cyfnod canoloesol ymlaen. Yn ystod y Rhyfel Cartref, fe wnaeth byddin Cromwell, a oedd yn agos i 6,000 o ddynion, amgylchynu'r castell, felly roedd Cil-maen mewn sefyllfa strategol bwysig. Rhoddodd Cromwell y castell dan warchae ym 1648 ac fe osododd magnelau yn yr ardd wrth ochr y Ficerdy. Fe wrthododd y curad ar y pryd, adael ei gartref, gan ddewis wynebu'r perygl a'r swm. Wedi'r gwarchae, cafodd wahoddiad gan Cromwell i bregethu i swyddogion ei fyddin. Un hanes sy'n rhan o lôn gwerin leol yw bod Cromwell wedi gorfodi Poyer, Llywodraethwr Castell Penfro, i ildio, drwy dorri i ffwrdd y cyflenwad dŵr i'r castell a oedd wedi'i leoli yng Nghil-maen, ar Fryn Norgan. Y si oedd i fradwr o'r enw Edmonds ei fradychu a datgelu ei union leoliad i Cromwell, ond ofer fu ei drosedd: cafodd ei grogi ger y man hwnnw, a gosodwyd carreg dros ei fedd. Yn ddiweddarach ymgorfforwyd y garreg yn wal derfyn hen ysgol Cil-maen ac wedi iddi gael ei dymchwel aethpwyd â hi i'r castell.



Cat Stone

Ehangiad y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Fe ymgwymerodd pobl Cil-maen â gwaith yn ymwneud â llongau, adeiladu llongau, chwarela a gweithio calch yn ogystal ag amaethyddiaeth, ond ar ddechrau'r cyfnod Fictoraidd y dechreuodd Cil-maen ledaenu o ddifri tua'r gorllewin. Adeiladwyd terasau o fythynnod yn gartref i weithwyr yr iard longau wrth i Ddoc Penfro ehangu. Deuai fferi cwch rhwyfo â gweithwyr ar draws Afon Penfro o Lanfa Colley i Lon Imble o fewn pellter cerdded i'r iard longau. Dywedai trefolion Penfro bod Cil-maen yn ymestyn mor bell i'r gorllewin, ei fod yn ymddangos petai ar ddiwedd y byd. Dyna paham mae yna gymaint o enwau egsotig fel Rhes India, Seland Newydd a 'Turks Castle'. Datblygodd Cil-maen yn gymuned ffyniannus. Ym 1910, roedd y boblogaeth yn 1069, o gymharu â'r 1688 o drigolion a gofnodwyd yng Nghyfrifiad y Deyrnas Unedig yn 2001.

Addysg

Fe wnaeth y boblogaeth a oedd yn ehangu, fynnu mwy o ysgolion gwell, ac ym 1866 adeiladwyd Ysgol Iau Gymysg Cil-maen ar y tro llym ar ddiwedd Teras Bridgend. Oherwydd gwelliannau i'r ffordd, rhaid oedd dymchwel yr adeilad coeth hwn o Oes Fictoria, ac yno mae yna fwllch, glaswelltog, gwag yn y man lle safai'r ysgol ar un adeg. Adeiladwyd ysgol iau newydd, sef Ysgol Gynradd Gymunedol Priordy Cil-maen y tu ôl i'r Ysgol Gynradd. Agorwyd hi ym 1899; ac yno y mae hi hyd heddiw. Yn rhan ohoni y mae canolfan ddynodedig i deithwyr sipsiwn, a elwir yn 'Prosiect Ysgol Priordy Cil-maen'. Mae gan Cil-maen gyswllt agos â'r gymuned deithio ers tro.

Ffermio a Ffeiriau

Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Cil-maen oedd y man galw cyntaf a'r olaf i'r ffermwyr a'r porthmyn a arferai yrru'u gwartheg o benrhyn Castellmartin. Deuent yma i'w hanifeiliaid gael yfed o'r Hen Gwndid yn Lôn Cil-maen, a gan fod y gwartheg yn sychedig, felly hefyd oedd y porthmyn. Mae gan Deras yr Eglwys dri ar ddeg eiddo, ac roedd o leiaf 5 ohonynt yn dafarnau ar y pryd. Arferai Cil-maen gynnal 3 ffair yn cynnwys Ffair Calan Mai a Ffair Holyrood yn ogystal ag amrywiol ddyddiau i werthu gwartheg a cheffylau ar y stryd. Roedd rasio cheffylau hefyd yn nodwedd o fywyd yng Nghil-maen. Cynhaliwyd y rasys Pwynt-i-Bwynt yng Nghaeau Priordy cyn y symudwyd hwy i Lydstep. Arferai teulu Jenkins o'r Priordy rhedeg stablau, ac roeddent yn berchen ar nifer o geffylau rasio llwyddiannus yn cynnwys yr enwog Priory Boy.




Adfer Eglwys y Priordy yn Oes Fictoria

Daeth Canon David Bowen i Gil-maen ym 1877 ac ef oedd yn gyfrifol am adfer adfeilion Eglwys Priordy ym 1882. Yn ystod y cyfnod adfer gwnaed darganfyddiadau erchyll; daethpwyd o hyd i gannoedd o esgryn dynol oddi tan y llawr a chanfuwyd sgerbwd mynach yn y wal uwchlaw'r cyntedd, yn y fath sefyllfa a oedd yn awgrymu iddo gael ei gladdu'n fyw.

Cafwyd ymweliad â'r Eglwys gan y Brenin Edward VII a'r Frenhines Alexandra ddydd Sadwrn 23ain o Awst 1902 a chomisiynwyd y ffenest Ddwyreiniol i goffau'r ymweliad hwn. Cafodd ei chysegru gan Esgob Abertawe ym mis Awst 1904. Cafwyd ymweliad pellach gan aelod o'r teulu brenhinol ym 1964, y tro hwn gan y Fam Frenhines.

Mae hi werth ymweld â'r eglwys. Mae ysbïendwll y gwahanglwyfus a beddrodau'r pendefigion lleol ymhlith nifer o'r nodweddion diddorol sydd i'w gweld yno. Amlygir y rhain ar y byrddau treftadaeth sy'n cael eu harddangos yno.

Teras yr Eglwys a Neuadd Eglwys y Priordy



Yn ôl chwedlau, mae yna dwnnel cudd yn cysylltu'r Priordy a'r castell. Ym 1885 fe wnaeth dau frawd, Alfred a Tom Davies honni eu bod wedi dilyn y twnnel tanddaearol ond fe'u gyrrwyd yn ôl gan sŵn dŵr a'r ffaith bod eu lampau wedi diffodd.

Taith Trwy Gil-maen

Datgelir cryn lawer o hanes Cil-maen, ynghyd â'i hanes naturiol, wrth ddilyn Llwybr Arfordir Penfro. Mae'r llwybr yn dilyn Afon Penfro o Angle, cyn belled â chilfach fach brydferth, Quoits Mill, sef ffin fwyaf gorllewinol y plwyf. Mae Quoits Mill o ddiddordeb penodol, gan iddi ddarparu'r cyflenwad gyntaf o drydan i Benfro.

Mae'r llwybr yn mynd yn ei flaen trwy Gil-maen fodern (lle mae enwau'r hen strydoedd sef Rhes India a Long Mains yn bodoli o hyd) i'r 'hen' rhan, gan droi i'r chwith ger Eglwys y Priorddy, i Deras yr Eglwys, i lawr y Bryn Lletchwith a heibio'r Hen Neuadd i Bont Cil-maen, lleoliad cei gwreiddiol Penfro a fu'n gweithredu tan yr 20fed ganrif. Trowch i'r chwith i lwybr Pwll y Castell ac fe ewch heibio oddi tano i adeiladau a Fferm y Priorddy, bwthyn segur (crair o'r iard longau yn Cunnigar) a chroesi bared dros Afon Penfro. Parhewch ar hyd Llwybr yr Arfordir i Ddoc Penfro, sy'n dilyn y llwybr ar yr ochr gyferbyn â'r afon, ac mae modd dargyfeirio ar hyd y draethlin pan fydd y llanw'n isel, ac o'r man hwn fe welwch Gil-maen. Gellir hefyd weld Glanfa Colley a'r hen chwarel. Mae yna odynnau calch hefyd, ond maen nhw allan o'r golwg.

Mae'r llwybr hwn yn rhaid i'r rheiny sydd â diddordeb mewn hanes naturiol. Mae Afon Penfro yn ardal SoDdGA dynodedig. Yma fe welwch amrywiaeth o adar: yn eu plith, adar gwyllt, rhydwyr fel y crëyr glas, crëyr bach, a'r gylfinir, ac fe allech chi hyd yn oed weld glas y dorlan.



Quoits Mill



Y CÔD CEFN GWLAD

Parchwch - Diogelwch - Mwynhewch

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

CYDNABYDDIAETHAU

Sefydlwyd Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro ar gyfer Mentro a Datblygu (PLANED) i wella amodau cymdeithasol ac economaidd y bobl ac i gyfoethogi amgylchedd Sir Benfro. Ariennir y prosiect hon yr rhannol drwy Gynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2007-2013 a gylludwyd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Text researched and written by Pembroke and Monkton Local History Society
Darluniau gan/Illustrations: George Lewis • Cynllun gan/Design: Waterfront Graphics
Cyhoeddwyd gan/Published by PLANED © 2011



Credyd Amcuddiedig Senedd yr Eglwys
Credyd Senedd yr Eglwys
Credyd Senedd yr Eglwys
The European Agricultural Fund for
Rural Development (European Investment in
Rural Areas)



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Pembroke & Monkton Local History Society

www.pembrokeandmonktonhistory.org.uk